



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

CYNLLUN DATBLYGU CADWYNI CYFLENWI A CHYDWEITHIO

Mesur 16.5 Cynllun Rheoli Cynaliadwy

Nodiadau Cyfarwyddyd



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloesdd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYNNWYS

Paragraff

Cyflwyniad	1
Amcanion Strategol a Thematig	19
Manylion Cyswllt Llywodraeth Cymru	21
Pwy all wneud cais	22
Diffiniad o BBaCh	24
Gweithgareddau Cymwys	25
Gweithgareddau Anghymwys	30
Costau Cymwys	31
Costau Anghymwys	33
Cyfradd grant uchaf a'r trothwy grant uchaf	34
Cymorth gwladwriaethol	38
Dewis prosiectau llwyddiannus	39
Gofynion allweddol	43
Themâu Trawsbynciol	47
Sut i wneud cais	51
Amodau'r Grant	65
Talu Grant	67
Monitro Prosiectau	76
Diwedd y Cynllun	80
Gweithdrefn Apelio	81
Gweithdrefn Gwyno	83
Atodiad A - Enghreifftiau o weithgareddau prosiectau posibl	
Atodiad B - Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy	

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn egluro'r **Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS)** a'r math o brosiectau a allai fod yn gymwys am gymorth grant. Darllenwch nhw'n ofalus. Os ydych chi'n credu wedyn y gallai'ch cynlluniau prosiect yn gymwys am grant a'ch bod am wneud cais, edrychwch ar yr adran 'Sut i Wneud Cais' isod.
2. Mae'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn rhan o'r **Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio (CSCDS)** sy'n cael ei ddarparu dan Fesur 16 (Erthygl 35 o Reoliad (EU) 1305/2013). Mae'r CSCDS yn elfen bwysig o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mae'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn cael ei ddarparu dan is-Fesur 16.5 o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mae'r cymorth sydd ar gael dan is-fesurau eraill CSCDS wedi'i nodi yn y Nodiadau Cyfarwyddyd ar wahân ar CSCDS.
3. Nod yr SMS yw cefnogi prosiectau cydweithredol ar raddfa'r tirwedd i ddarparu camau gweithredu sy'n gwella ein hadnoddau naturiol mewn ffordd sy'n sicrhau manteision i fusnesau gwledig a ffermio a chymunedau gwledig. Bydd hefyd yn cefnogi ac yn hwyluso cydweithrediad â chynlluniau eraill i gymryd y camau hollbwysig sydd eu hangen i wella cadernid busnesau ffermio a gwledig a chymunedau gwledig rhag effeithiau hinsawdd.
4. Mae'r SMS wedi'i gynllunio i gefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy fel y'i nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015¹ a gweithredu gofynion y dyfodol, gan aros Cydsyniad Brenhinol i Fil yr Amgylchedd (Cymru)² ("y Bil"), a fydd yn galluogi adnoddau Cymru i gael eu rheoli mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chyd-gysylltiedig ac i sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol sydd ei angen i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.
5. Mae adnoddau naturiol Cymru ymysg ein hasedau mwyaf gwerthfawr. Wrth ddarparu gwasanaethau hanfodol – o'r aer rydym yn ei anadlu i'r bwyd rydym yn ei fwyta, i'r tir rydym yn ei amaethu neu ei ddatblygu, y moroedd yr ydym yn eu pysgota i'r dŵr rydym yn ei ddefnyddio i yfed neu oeri diwydiant trwm – mae adnoddau naturiol Cymru mor sylfaenol i lwyddiant hirdymor ein heconomi ag y maent i ansawdd ein hamgylchedd naturiol a lles ein cymunedau.
6. Mae'r angen i fynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau, megis y newid yn yr hinsawdd a dirywiad mewn bioamrywiaeth, yn golygu bod angen ymyrryd a chymryd camau i alluogi Cymru i dyfu, i wella cadernid ac i reoli ei hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn effeithlon.

¹ <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-bill/?lang=cy>

² <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/environment-bill/?lang=cy>

7. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallwn, drwy gefnogi camau cydweithredol a chydgyssylltiedig, wneud y gorau o gyfleoedd i wella'r gwasanaethau y mae ein hadnoddau naturiol yn eu darparu. Bydd hefyd yn lleihau peryglon gwirioneddol y newid yn yr hinsawdd i'n busnesau, seilwaith a chymunedau gwledig, ac yn cwrdd â'n cyfrifoldebau a'n rhwymedigaethau rhyngwladol, tra hefyd yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd economaidd sydd ar gael i'r sector amaeth a busnesau gwledig.
8. Mae'r Bil yn nodi egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy³, ar sail egwyddorion dull yr ecosystem a gefnogwyd gan Gofensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol. Caiff y rhain eu cydnabod yn arferion da rhyngwladol, sydd eu hangen i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Mae'r cynllun hwn yn defnyddio'r egwyddorion hyn ac yn disgwyl i brosiectau sy'n gwneud cais fabwysiadu'r dull hwn.

Ceir manylion egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn Atodiad B - Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

9. Bydd angen i bob prosiect sy'n cael cymorth drwy'r SMS fod yn gallu dangos sut byddant yn cymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
10. Mae gan ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau ran bwysig i'w chwarae wrth addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effeithiau. Mae'r asesiad risg diweddaraf o'r newid yn yr hinsawdd (Climate Change Risk Assessment - CCRA) yn nodi perygl llifogydd, straen ar adnoddau dŵr a bygythiadau i fioamrywiaeth a chynefinoedd naturiol fel rhai o'r prif fygythiadau i'r Deyrnas Unedig. Mae ecosystemau'n hynod agored i'r newid yn yr hinsawdd, felly mae angen gweithredu nawr i helpu i wella cadernid ein hecosystemau a'r gwasanaethau maent yn eu darparu, megis dŵr glân, cynhyrchu bwyd, rheoli clefydau a manteision hamdden a thwristiaeth fel y gall y gwasanaethau hyn barhau yn y dyfodol.
11. Mae amaethyddiaeth yn chwarae rhan hollbwysig mewn diogelwch bwyd, datblygiad economaidd-gymdeithasol gwledig a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ond mae'n agored i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd oherwydd gall newidiadau yn y tymheredd a'r glawiad, eithafion tywydd amlach, colli pridd a'r lledaeniad a ragwelir mewn clefydau, oll effeithio'n andwyol ar gynhyrchiant.
12. Mae Adroddiad Kevin Roberts⁴ yn nodi bod cyfleoedd gwirioneddol i'r diwydiant amaeth addasu a ffynnu, a thrwy gymryd camau ar y cyfle cyntaf posibl i feithrin cadernid ar gyfer newid yn yr hinsawdd cadernid rhag y newid yn yr hinsawdd, bydd hyn hefyd yn gwella cadernid busnesau ac yn lleihau'r risg i'r gymdeithas yn ehangach.

³ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld10201-em/pri-ld10201-em-w.pdf> tt15-19

⁴ <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/documents-2014-2020/independent-review-resilience-farming-wales/?lang=cy>

13. Mae'r SMS yn defnyddio Datganiad Polisi presennol Llywodraeth Cymru ar Adnoddau Naturiol⁵ sy'n dangos rhai o'r prif heriau a'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg (crynodeb yn Atodiad B - Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy). Bydd gweithredu mewn perthynas â'r blaenoriaethau hyn sy'n dod i'r amlwg ar lefel genedlaethol yn gymorth i feithrin cadernid ein hecosystemau ac i gyflawni'r prif heriau a nodir yn y Datganiad.
14. Yn ogystal â mynd i'r afael â'r heriau pwysig hyn a'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg; bydd angen i brosiectau ddangos dealltwriaeth dda o'r cyfleoedd a'r heriau yn yr ardal leol sydd dan sylw yn y prosiect er mwyn llwyddo. Bydd angen cael yr wybodaeth hon drwy'r partïon cydweithredol, ffynonellau tystiolaeth lleol a thrwy ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedau lleol. Nod yr SMS yw annog dulliau arloesol newydd a chanfod marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg ac a fydd yn gymorth i hyfywedd hirdymor cymunedau gwledig ac i ddaliadau amaethyddol unigol a busnesau lleol o fewn ardal y prosiect.

Ategu Glastir a chynlluniau eraill Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

15. Mae'r SMS wedi'i gynllunio i ategu a gweithio ochr yn ochr â chyfleoedd cyllido Glastir. A Glastir yn targedu amrywiaeth o ganlyniadau ar sail daliadau amaethyddol, gellir defnyddio'r SMS i gydlynu ymdrechion lleol drwy alluogi cydlyniad gyda chyfranogiad Glastir ac ymgysylltu â thirfeddianwyr eraill nad ydynt yn cymryd rhan neu nad ydynt yn gymwys ar gyfer Glastir fel y bo'r cynlluniau cyfunol yn gallu cael effaith ar raddfa fawr ac ar y tirwedd.
16. Er enghraifft, byddem yn disgwyl i brosiectau cydweithredol mawr sy'n gwneud cais i'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy fod yn gallu gwneud cais i Glastir Uwch neu Glastir - Grantiau Bach er mwyn ariannu gweithgareddau unigol ar lefel ffermydd gan gyfrannu at nodau cyffredinol y prosiect yn ehangach. Os felly y mae, bydd angen i brosiectau sicrhau gwahaniad pendant yn eu cyfrifon er mwyn osgoi'r perygl o gyllido dwbl. Felly hefyd, gallai prosiectau wneud cais am arian i'w ddefnyddio i gydlynu cyfranogiad mewn elfennau a chynlluniau eraill o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, megis y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy neu'r Grant Buddsoddi mewn Busnesau Pren, i gael manteision cyfunol o ganlyniad i weithgareddau cynhyrchiol ac amgylcheddol. Yn hyn o beth, mae'n ofyniad pwysig i bob prosiect a ariennir drwy'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy fod yn gallu darparu data mapio o'r gweithgareddau prosiect arfaethedig yn y cam cais llawn. Dylai'r rhain gydymffurfio â safonau'r diwydiant. Bydd hyn yn sicrhau bod diwydrwydd dyladwy ar ddyblygu cyllid⁶.
17. Dim ond amlinelliad o'r cynllun a'r ffordd y mae'n cael ei weithredu yw hwn a gallai'r rheolau manwl ar gyfer meini prawf cymhwysedd newid.
18. Ceir enghreifftiau o weithgareddau prosiect posibl yn Atodiad A - Enghreifftiau o weithgareddau prosiectau posibl

⁵ <http://gov.wales/docs/desh/publications/150914-natural-resources-policy-statement-cy.pdf>

⁶ Cyhoeddir Cwestiynau Cyffredin ar-lein er mwyn rhoi rhagor o fanylion .

Amcanion Strategol a Thematig

19. Mae'r SMS wedi'i gynllunio i gyfrannu'n benodol at bolisi trosfwaol yr Undeb Ewropeaidd ar ddatblygu gwledig sydd wedi'i gynllunio i 'gwrdd â'r heriau y mae ein hardaloedd gwledig yn eu hwynebu, a datgloi eu potensial'. Mae'r SMS yn gyson hefyd â pholisïau perthnasol eraill yr UE megis Strategaeth Göteborg ar gyfer datblygu cynaliadwy a pholisïau'r UE yn ymwneud ag addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effeithiau.
20. Bydd yr SMS yn mynd i'r afael â nifer o flaenoriaethau datblygu gwledig y Comisiwn Ewropeaidd a'r meysydd ffocws ar gyfer amcanion 2014-2020.

Ardal â Ffocws 2: Gwella cystadleurwydd pob math o amaethyddiaeth a gwella hyfywedd ffermydd
<p>(a) Ei gwneud yn haws i ffermydd sy'n wynebu heriau strwythurol mawr allu ailstrwythuro (yn enwedig ffermydd sydd â lefel isel o gyfranogiad yn y farchnad neu ffermydd sy'n seiliedig ar y farchnad ac sy'n weithgar mewn rhai sectorau neu ffermydd sydd angen arallgyfeirio amaethyddiaeth).</p> <p>(b) Ei gwneud yn haws i gael strwythur oedran cytbwys yn y sector amaeth.</p>
Ardal â Ffocws 4: Adfer, cadw a gwella ecosystemau sy'n ddibynnol ar amaethyddiaeth a choedwigaeth
<p>(a) Adfer a chadw bioamrywiaeth, gan gynnwys yn ardaloedd Natura 2000 a ffermio sydd o werth mawr i natur, a chyflwr tirweddau Ewropeaidd.</p> <p>(b) Rheoli dŵr yn well.</p> <p>(c) Rheoli pridd yn well.</p> <p>(d) Meithrin storio carbon ym myd amaeth a choedwigaeth.</p>
Ardal â Ffocws 5: Hyrwyddo'r defnydd effeithiol o adnoddau a chefnogi'r symudiad at economi carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd yn y sector amaeth, y sector bwyd a'r sector coedwigaeth
<p>(a) Cynyddu effeithlonrwydd o ran y defnydd o ddŵr ym myd amaeth.</p> <p>(b) Cynyddu effeithlonrwydd o ran y defnydd o ynni ym myd amaeth a phrosesu bwyd.</p> <p>(c) Ei gwneud yn haws i gyflenwi a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy; isgynhyrchion, gwastraff, gweddillion a deunyddiau crai eraill nad ydynt yn fwyd at ddibenion y fio-economi.</p> <p>(d) Lleihau ocsid nitrus ac allyriadau methan o amaethyddiaeth.</p>

(e) Meithrin storio carbon ym myd amaeth a choedwigaeth.

Ardal â Ffocws 6: Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig

(a) Ei gwneud yn haws i arallgyfeirio, creu a datblygu mentrau bach newydd a chreu swyddi.

(b) Meithrin datblygiadau lleol mewn ardaloedd gwledig.

MANYLION CYSWLLT LLYWODRAETH CYMRU

21. Os oes gennych unrhyw ymholiadau dylech anfon e-bost i'r cyfeiriad isod:

sustainablemanagementscheme@wales.gsi.gov.uk

PWY ALL WNEUD CAIS

22. Mae'r cynllun hwn yn agored i geisiadau gan BBaCh a busnesau mawr, sefydliadau addysg neu ymchwil, ffermwyr, coedwigwyr, grwpiau cymunedol neu wirfoddol (gan gynnwys pob sefydliad anllywodraethol) sy'n gweithredu'n bennaf mewn ardal wledig ac sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, coedwigaeth neu fath arall o reoli tir. Mae hyn yn cynnwys cymdeithasau perchenogion a choetiroedd cymunedol, ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol.

23. Ni ddylai ymgeiswyr fod mewn anawsterau fel a ddiffinnir yn y canllawiau ar gyfer Cymorth Gwladwriaethol ar gyfer achub ac ail-strwythuro (2014/C 249/01).

DIFFINIAD O BBaCh

24. Busnes Bach a Chanolig yw menter sy'n cyflogi llai na 250 o weithwyr (cyfwerth ag amser llawn) ac sydd â throsiant blynyddol heb fod yn fwy na 50 miliwn ewro a/neu gyfanswm mantolen flynyddol heb fod yn fwy na 43 miliwn ewro. Dylid trin staff rhan amser a gweithwyr tymhorol fel ffracsiwn cyfwerth ag amser llawn.

- Mae BBaChau yn cynnwys 3 is-gategori o fentrau: micro, bach a chanolig
- Mae mentrau Micro yn cyflogi llai na 10 o weithwyr, mentrau Bach yn cyflogi llai na 50 o weithwyr a mentrau Canolig yn cyflogi llai na 250 o weithwyr
- Mae maint y fenter hefyd yn cyfeirio at y trosiant blynyddol a'r cyfanswm ar y fantolen flynyddol o dan rai amgylchiadau.

I gael diffiniad llawn, trowch at ganllawiau defnyddwyr a datganiad enghreifftiol y Comisiwn Ewropeaidd. 'Y diffiniad newydd o BBaCh'

GWEITHGAREDDAU CYMWYS

Fersiwn: 6

Dyddiad Cyhoeddi: Awst 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Tud 7 o 27

25. **Datblygu a chydlynu grwpiau cydweithredol a rheoli prosiectau** er mwyn bwrw ymlaen â gweithgareddau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gwella gwasanaethau ecosystemau, a lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
26. **Camau cydweithredol** a wneir gyda'r bwriad o liniaru neu addasu i'r newid yn yr hinsawdd a/neu weithgareddau rheoli tir sy'n gydlynedig ac ar raddfa'r tirwedd er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a sicrhau gwasanaethau ecosystemau a manteision lluosog.
27. **Cyfathrebu a lledaenu** dulliau, gwersi a chanlyniadau prosiect; lledaenu gwybodaeth ymysg cymunedau a phartïon eraill sydd â diddordeb; cyfathrebu'n barhaus o fewn partneriaid cydweithredol a rhyngddynt, a lledaenu canlyniadau prosiect cydweithrediad ar y diwedd.
28. **Ymchwil, cyngor technegol ac astudiaethau dichonoldeb** - gall syniad da ar gyfer camau cyd-gysylltiedig olygu bod angen asesiadau technegol o'r ardal dan sylw, neu ddealltwriaeth o'r farchnad newydd a dargedir. Mae'n bwysig sicrhau bod y gweithgaredd cywir yn y lle cywir er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau. Felly mae modelu, cyngor technegol ac astudiaethau dichonolrwydd yn gymwys ar gyfer cyllid i gefnogi hyn.
29. **Monitro a Gwerthuso** - gweithgareddau i ddangos canlyniadau'r camau cydweithredol, drwy fonitro'r effeithiau, gan sicrhau bod asesiad cychwynnol yn ei le cyn cymryd camau a mesur y newidiadau sy'n dilyn. Gweithgareddau'n ymwneud â datblygu gwersi allweddol a chofnodi profiadau'r cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â nhw yn y cydweithrediad i helpu i siapio rhaglenni a phrosiectau yn y dyfodol. Mae cost gwerthusiad annibynnol, allanol o'r gweithgareddau cydweithredol yn weithgaredd cymwys.

GWEITHGAREDDAU ANGHYMWYS

30. Mae nifer o weithgareddau a buddsoddiadau nad ydynt yn gymwys am gymorth dan y mesur hwn:
 - taliadau i dirfeddianwyr, ffermwyr neu goedwigwyr am waith cyfalaf a wneir ar eu tir eu hunain
 - taliadau i dirfeddianwyr, ffermwyr neu goedwigwyr am weithgareddau rheoli tir sy'n mynd rhagddynt
 - buddsoddi yng ngwaith cynhyrchu cychwynnol nwyddau amaethyddol neu bren. Megis gweithgareddau a fyddai'n gymwys i gael cyllid dan y Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG) neu'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren (TBIS).

COSTAU CYMWYS

31. Costau Cyfalaf

Gall cymorth o dan SMS gwmpasu asedau diriaethol fel peiriannau a chyfarpar ac asedau anniriaethol fel meddalwedd cyfrifiadurol, a thrwyddedau a ffioedd technegol ac ymgynghori:

Fersiwn: 6

Dyddiad Cyhoeddi: Awst 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Tud 8 o 27

- Prynu eitemau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau rheoli tir, megis coed, planhigion gwrychoedd, ffensys ac eitemau gwaith cyfalaf sydd eu hangen er mwyn sicrhau'r canlyniadau
- Costau cyffredinol a gafwyd wrth osod y gwaith cyfalaf, gan gynnwys costau contractwyr ar gyfer llafur a defnyddio cyfarpar
- Prynu peiriannau a chyfarpar hyd at werth marchnad yr ased
- Caffael neu ddatblygu meddalwedd cyfrifiadurol a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau a nodau masnach
- Mae ffioedd ymgynghorwyr a phenseiri, costau cynllunio technegol eraill, arolygon safle a ffioedd proffesiynol megis ffioedd sy'n ymwneud â chynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd; ffioedd a chostau ceisiadau cynllunio; ffioedd am ganiatâd statudol, trwyddedau a chydysniadau hefyd yn gynnwys hyd yn oed os ydynt wedi'u cwblhau a'u prynu cyn derbyn cymeradwyaeth: cyn belled â'u bod yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r prosiect.

32. Costau Refeniw

- Costau refeniw am weinyddu'r gwaith o sefydlu a rhedeg grŵp cydweithredol
- Costau refeniw i roi cymorth i gyfathrebu'r gweithgareddau cydweithredol arfaethedig
- Costau rhedeg prosiect, gan gynnwys costau staff a rhent safleoedd.

COSTAU ANGHYMWYS

33. Mae'r eitemau canlynol neu fathau o wariant yn **anghymwys**:

- prynu tir
- prynu adeiladau
- prynu ceir, faniau, beiciau modur, beiciau ac unrhyw ffurf arall o gludiant personol (am ba reswm bynnag)
- prynu cerbydau ar gyfer cludiant allanol (megis lorïau, bysiau, faniau, bysiau mini neu unrhyw fath arall o gerbyd a ddefnyddir i gludo nwyddau neu bobl)
- taliadau i reolwyr tir am gynnal gweithgareddau ar eu tir
- taliadau rheoli cylchol i reolwyr tir am reoli tir yn barhaus
- unrhyw waith corfforol ar y safle neu wariant arall a gafwyd cyn dyddiad cychwyn y prosiect heb gymeradwyaeth ysgrifenedig gan y rhoddwr grant o flaen llaw
- gwaith dros dro nad yw'n gysylltiedig yn **uniongyrchol** â gweithredu'r prosiect
- costau cynnal a chadw ar gyfer adeiladau, peiriannau neu gyfarpar sy'n bodoli eisoes

Cynllun Rheoli Cynaliadwy – Nodiadau Cyfarwyddyd
Mesur Cydweithredu 16(5)

- newid tebyg am debyg
- costau sy'n gysylltiedig â contract prydlesu fel elw leswr, costau cyllido llog, gorbenion a thaliadau yswiriant
- cost trefnu benthyciadau, TAW a threthi eraill sy'n adferadwy gan y buddiolwr, costau gweinyddol neu staff neu iawndal a delir i bartion eraill am ddifeddiannu etc.
- gorbenion a ddyranwyd neu a ddosrannwyd ar gyfraddau sy'n sylweddol uwch na chyfraddau am gostau tebyg a gafwyd gan fecanweithiau cyflenwi tebyg
- gwariant tybiannol
- taliadau ar gyfer gweithgarwch o natur wleidyddol
- dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad asedau a brynwyd gyda chymorth grant Ewropeaidd
- darpariaethau
- rhwymedigaethau digwyddiadol
- hapddigwyddiadau
- difidendau i gyfranddalwyr
- taliadau llog (ac eithrio o dan gynllun Cymorth Gwladwriaethol a gymeradwyir)
- taliadau gwasanaeth sy'n deillio o brydlesau cyllid, hurbwrcasu a threfniadau credyd
- costau sy'n deillio o ohirio taliadau i gredydwyr
- costau sy'n ymwneud â dirwyn cwmni i ben
- taliadau ar gyfer pensiynau heb eu cyllido
- iawndal am golli swydd
- drwgddyledion sy'n deillio o fenthyciadau i weithwyr, perchnogion, cyfarwyddwyr, partneriaid, gwarantwyr, rhanddeiliaid neu berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain
- taliadau am anrhegion a rhoddion
- diddanwch personol (gan gynnwys alcohol)
- dirwyon a chosbau statudol
- trethi statudol (ag eithro TAW anadferadwy)
- dirwyon ac iawndal troseddol
- treuliau cyfreithiol yn ymwneud â chyfreitha
- TAW adenilladwy
- Meddwlwedd cyfrifiadurol ac aps i gynnal systemau rheoli busnes cyffredinol / cyfrifon / marchnata a hyrwyddo / gwefannau/ gwerthiant ar-lein

CYFRADD GRANT UCHAF A'R TROTHWY GRANT UCHAF

34. Mae swm y grant yn cynnwys cyfanswm y cyfraniad gan y sector cyhoeddus i gyllido'r prosiect, sy'n cynnwys arian gan yr UE; cyd-gyllid i arian yr UE gan Lywodraeth Cymru; arian gan adrannau eraill y llywodraeth ac asiantaethau, cyrff

Fersiwn: 6

Dyddiad Cyhoeddi: Awst 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Tud 10 o 27

cyhoeddus anadrannol, cyrff cyhoeddus ac awdurdodau lleol; arian gan gyrff a reolir gan y llywodraeth megis y Gwasanaeth Busnesau Bach a'r Loteri Genedlaethol; ac arian o drethi ardrethiannol (ardollau).

Os ceir arian cyhoeddus o'r UE neu'r DU i gefnogi costau prosiect, bydd yn cael ei ddisgowntio yn erbyn y grant a roddir.

35. Y trothwy grant uchaf fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect unigol yw **£5,000,000**.

36. Y trothwy grant isaf fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect unigol yw **£10,000**.

37. Cyfradd uchaf y grant yw 100%.

CYMORTH GWLADWRIAETHOL

38. Bydd y Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn cael ei ddarparu heb unrhyw gymorth.

DEWIS PROSIECTAU LLWYDDIANNUS

39. Dewisir prosiectau mewn dau gam gwahanol. Yn y cam cyntaf, cyflwyniad amlinelliad o brosiect arfaethedig fel Datganiad o Ddiddordeb. Caiff amserlen ar gyfer dyddiadau cau pob rownd o Ddatganiadau o Ddiddordeb eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Proses gystadleuol fydd hon. Caiff y cynigion Datganiadau o Ddiddordeb hyn eu hystyried, a gwahoddir detholiad o gynigion i'r ail gam sef paratoi a chyflwyno cais llawn.

40. I'w ddethol; rhaid i brosiect, fel y bo'r angen, ddangos y canlynol (fel arfer yn y cais llawn ail gam ond hefyd pan fo'n briodol yn y cam cyntaf sef Datganiad o Ddiddordeb);

Yr angen am y gweithgarwch:

- mae angen yr allbynnau, a byddant yn cael eu cyflawni o gymharu â blaenoriaethau strategol y CE a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.
- mae'n ychwanegu at yn hytrach nag yn disodli/dyblygu gweithgarwch presennol yn ddiangen.
- nid yw'n cael ei ariannu eisoes gan ffynhonnell arall. (Dual funding).

Yr angen am gyllid:

- ni all y prosiect fynd rhagddo bellach heb gymorth
- nid yw'r costau'n ormodol ar gyfer natur y gweithgarwch dan sylw
- mae bwch cyllid neu fethiant yn y farchnad, lle bo hynny'n gymwys

Y gallu i gyflenwi:

- hyfywedd y busnes
- cydymffurfio â'r gyfraith
- hyfywedd ariannol y prosiect a chynaliadwyedd, gan gynnwys strategaeth ymadael
- cymorth ac ymrwymiad pob cydweithredwr.
- trefniadau rheoli, monitro a gwerthuso'r prosiect

41. Po fwyaf y pwysigrwydd a'r cyfraniad y gall prosiect ei wneud i flaenoriaethau polisi priodol ac i feysydd ffocws strategol, y mwyaf tebygol yw o gael ei argymhell i'w ddewis.
42. Mae prosiectau'n fwy tebygol o gael eu hargymhell i gael cymorth pan fo prosiectau'n gallu dangos arian cyfatebol neu gymorth mewn ffyrdd eraill neu ymrwymiad gan gyfranogwyr.

GOFYNION ALLWEDDOL

43. Ni fyddai cyfnod prosiect fel arfer yn para mwy na thair blynedd ar y mwyaf.
44. Mae cyfnod cychwynnol cymorth i brosiect hyd at dair blynedd.
45. Ni fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo heb gymorth grant.
46. Swm y grant y gofynnir amdano yw'r cyllid i llenwi bwloch isaf sy'n angenrheidiol i'r prosiect fynd rhagddo.
47. Mae'n rhaid i geisiadau llawn ail gam ddangos eu bod wedi mynd i'r afael â'r canlynol hefyd:
 - mae caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i dderbyn os oes angen hynny
 - mae pob cydsyniad, trwydded a chaniatâd arall wedi'i dderbyn yn ôl yr angen
 - ar gyfer sefydliadau neu gymdeithasau sydd eisoes yn bodoli, hyfywedd economaidd y prosiect a'r sefydliad, drwy ddarparu cyfrifon ar gyfer tair blynedd olynol yn syth cyn dyddiad y cais llawn ail gam a rhagolygon ariannol ar gyfer cyfnod y prosiect
 - Bydd angen i sefydliadau neu gymdeithasau newydd ddarparu manylion llawn am gefndir a phrofiadau'r cyfarwyddwyr ynghyd â thystiolaeth arall sydd ei angen i ddilysu cynigion y prosiect
 - cydymffurfio â Chyfraith y DU a'r UE ar gyfle cyfartal, a dylai prosiectau hyrwyddo ac annog cyfle cyfartal a mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol
 - mae'n rhaid recriwtio staff allweddol drwy gystadleuaeth deg ac agored
 - cydymffurfio â'r safonau gofynnol a'r gofynion deddfwriaethol o ran yr amgylchedd, hylendid, lles anifeiliaid a safonau iechyd a diogelwch; pan fo'n briodol a/neu'n angenrheidiol
 - sicrhau bod y sgiliau a'r cymwyseddau technegol angenrheidiol ar gael yn y busnes neu'r sefydliad
 - y gallu i gofnodi data gweithgareddau yn y fformat angenrheidiol, yn arbennig gweithgareddau rheoli tir ar system GIS, a bod yn gallu diogelu a rhannu'r data hyn gyda Llywodraeth Cymru a chyrrff eraill yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

THEMÂU TRAWSBYNCIOL

48. Mae'r Rheoliadau sy'n llywodraethu Rhaglenni Ewropeaidd yn nodi bod rhaid i bob prosiect a ariennir drwy'r Fframwaith Strategol Cyffredin integreiddio'r Themâu Trawsbynciol sy'n ymwneud â Chyfle Cyfartal a Phrif-ffrydio Rhywedd a Datblygu Cynaliadwy. Mae angen ymgorffori'r Themâu Trawsbynciol gorfodol hyn wrth ddylunio a datblygu'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ac wrth gynnal y gweithgarwch a gefnogir drwy'r cronfeydd hynny. Mae hyn yn cynnwys Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.
49. Yn ogystal â'r ddwy thema sy'n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd, bydd Themâu Trawsbynciol Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol hefyd yn orfodol ar gyfer rhaglenni Llywodraeth Cymru.
50. Bwriad y themâu trawsbynciol yw ychwanegu gwerth, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, cynyddu'r cyfraddau cyfranogiad a lliniaru effeithiau andwyol. Dylai hyn fod o gymorth i symud y tu hwnt i gydymffurfiaeth a datblygu systemau sy'n cefnogi arfer gorau.
51. Mae rhagor o ganllawiau ar gael yma:

<http://wefo.gov.wales/publications/guidanceandpublications14-20/crosscutting1/?skip=1&lang=cy>

SUT I WNEUD CAIS

52. Un o ofynion y Comisiwn Ewropeaidd yw na ddylid dewis prosiectau Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 o dan system y cyntaf i'r felin. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, y bwriad yw y bydd cynlluniau Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 yn agor a chau ar gyfer ceisiadau am gyfnodau gydol oes y rhaglen newydd, yn dibynnu ar y dyraniadau ariannol sydd ar gael i'r rhaglen.
53. Bydd y broses Ymgeisio ar gyfer cynlluniau economaidd-gymdeithasol Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 yn broses ddau gam. Y cam cyntaf fydd Datganiad o Ddiddordeb. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo gyda'u Datganiad o Ddiddordeb yn cael eu gwahodd i gwblhau'r ail gam, sef cyflwyno cais llawn.
54. Bydd ceisiadau Datganiad o Ddiddordeb yn cael eu cyflwyno mewn cystadleuaeth uniongyrchol â'i gilydd a disgwylir y bydd llawer o alw am y grant sydd ar gael. Caiff cynigion eu hasesu o gymharu â meini prawf a nodir yn y meini prawf ar gyfer dethol Datganiadau o Ddiddordeb a'r dogfennau cyfarwyddyd.
55. Bydd manylion y cyfnod ar gyfer cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd y manylion yn cynnwys y dyddiadau agor a chau, y gyllideb ddangosol sydd ar gael ar gyfer pob cyfnod, ac uchafswm disgwyliedig y Datganiadau o Ddiddordeb a wahoddir i gyflwyno cais llawn.
56. Bydd y Datganiadau o Ddiddordeb yn cael eu sgorio a'u rhoi yn nhrefn teilyngdod yn unol â'r meini prawf dethol a gyhoeddwyd. Bydd cynigion prosiectau'n cael eu

dewis yn ôl y drefn honno hyd nes y bydd yr arian sydd ar gael wedi'i ddyrannu neu fod uchafswm nifer y ceisiadau wedi'i gyrraedd. Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd yr arian i gyd yn cael ei ddyrannu nac y bydd uchafswm nifer y ceisiadau yn cael eu gwahodd.

57. Ceir manylion llawn am wneud cais yn y Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ddatganiadau o Ddiddordeb, ac yn y ffurflen gais a'r meini prawf Datganiad o Ddiddordeb, sy'n benodol i'r Cynllun.

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/?skip=1&lang=cy>

58. Ar ôl i gynnig prosiect gael ei ddewis yn y cam Datganiad o Ddiddordeb, gwahoddir yr ymgeisydd i baratoi a chyflwyno cais llawn ar gyfer ei brosiect arfaethedig, ynghyd â thystiolaeth ddogfennol megis cynllun prosiect, cyfrifon blaenorol (os yw hynny'n briodol), rhagolygon ariannol a llifoedd arian ac unrhyw wybodaeth angenrheidiol arall.

59. Rhaid i geisiadau llawn gael eu cyflwyno trwy borth ar-lein Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Darperir canllawiau i bob ymgeisydd.

60. Rhaid i geisiadau yn yr ail gam fod yn gyson â'r cynnig a amlinellwyd yn y Datganiad o Ddiddordeb a gymeradwywyd.

61. Bydd y cais llawn yn cael ei arfarnu'n unol â Nodiadau Cyfarwyddyd y Cynllun a'r rheolau ar gymhwysedd. Bydd yn destun arfarniad diwydrwydd dyladwy ac archwiliadau cymhwysedd llawn, a dim ond bryd hynny y gwneir penderfyniad terfynol i gynnig grant neu beidio. Ni ellir gwarantu y caiff prosiect a gynigir ei gymeradwyo ar gyfer grant. Byddwn yn gobeithio cwblhau arfarnu'ch cais llawn cyn pen 90 diwrnod gwaith ar ôl derbyn cais llawn. Efallai y bydd angen cyfnod hirach arnom wrth arfarnu prosiectau cymhleth, neu brosiectau ag iddynt broblemau cymhwysedd. Noder os oes oedi ar eich rhan wrth i chi ymateb i gais am wybodaeth bellach gall hyn ymestyn cyfnod arfarnu'ch cais.

62. **Ni chewch ddechrau ar unrhyw waith nes ichi dderbyn cadarnhad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru. Ni fydd unrhyw brosiectau sy'n torri'r rheol hon yn cael eu hystyried ar gyfer grant.**

63. Yn amodol ar ofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004: **Caiff yr holl wybodaeth a roddir i Lywodraeth Cymru ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, dylech chi fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru a'r CE yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw eich sefydliad/cwmni, cyfanswm y grant a ddyfarnwyd ichi a chrynodeb o'ch prosiect.**

64. Gallwch ddefnyddio ymgynghorydd i baratoi eich cais os dymunwch, **ond mae'n rhaid i chi, ac nid yr ymgynghorydd, lofnodi'r ffurflen gais. Eich cyfrifoldeb**

chi yw sicrhau bod y cais wedi'i gwblhau'n gywir a bod yr wybodaeth a ddarperir i gefnogi'ch prosiect yn gywir.

65. Pan fyddwch yn cyflwyno'ch ffurflen gais, bydd Llywodraeth Cymru'n cydnabod ei bod wedi dod i law. Os yw prosiect yn anghymwys, cewch wybod hyn cyn gynted â phosibl. Os yw cais yn gymwys bydd arfarniad technegol ac ariannol manwl yn cael ei gynnal. Ar ôl cwblhau'r arfarniad, bydd y cymorth ar gyfer y cais yn cael ei werthuso yn erbyn y graddau y mae'n cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r CE a Llywodraeth Cymru, fel y disgrifir uchod.

Mae tri chanlyniad posibl:

- Nid yw'ch prosiect yn gymwys ar gyfer y grant. Bydd ymgeiswyr yn cael clywed hyn cyn gynted â phosibl;
- Mae'ch prosiect yn gymwys i'w ystyried, ond nid yw'n cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad. Caiff ymgeiswyr wybod y rhesymau pam nad oedd y cais yn llwyddiannus. Gall ymgeiswyr wneud cais eto gyda'r un prosiect (gan ddiwygio'r cais os dymunwch), **ond dim ond os nad ydynt wedi dechrau ar y gwaith.**
- Mae'r prosiect yn gymwys ac yn cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad. Bydd yr ymgeiswyr yn derbyn llythyr cymeradwyo sy'n nodi telerau ac amodau'r dyfarniad, a bydd angen ei lofnodi fel cytundeb eu bod yn derbyn y telerau ac amodau. Bydd y llythyr yn rhoi'r awdurdod i ddechrau ar y gwaith hefyd.

AMODAU'R GRANT

66. Mae'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn agored i ystod o ddeddfwriaeth berthnasol (gweler y nodiadau cyfarwyddyd ar ddeddfwriaeth). Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a'r ymgeisydd/derbynydd weithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth honno.
67. Caiff y grant Rheoli Cynaliadwy ei gynnig yn amodol ar delerau ac amodau, gan gynnwys y rhai a nodir isod. **Gallai methu â bodloni telerau ac amodau'r dyfarniad arwain at ddiddymu dyfarniad a/neu adennill symiau sydd eisoes wedi'u talu, neu ostyngiad yn swm y grant sy'n daladwy.**

Amodau:

1. Mae'n rhaid derbyn y grant a gynnigir o fewn 14 diwrnod gwaith i ddyddiad y llythyr cymeradwyo.
2. Mae'r dyfarniad yn cael ei wneud ar sail y datganiadau a wnaed gennych chi neu'ch cynrychiolwyr ar y ffurflen gais ac mewn gohebiaeth ddilynol.

Mae'n drosedd gwneud datganiadau ffug neu gamarweiniol.

3. Ni chewch ddechrau ar unrhyw waith ar y prosiect cyn cael awdurdod ysgrifenedig i wneud hynny gan Lywodraeth Cymru.

4. Mae'n rhaid ichi gyflawni unrhyw ymrwymiadau cyfreithiol o dan gyfraith yr UE a'r DU, gan gynnwys deddfwriaeth hylendid.
5. Ni chewch wneud unrhyw newidiadau i'r prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgarwch, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru o flaen llaw.
6. Ni chewch gael gwared ar, trosglwyddo neu werthu unrhyw gyfarpar a/neu adeiladau a brynwyd gyda chymorth grant heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru yn ystod cyfnod cyflawni'r prosiect ac am bum mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect.
7. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio â'r rheolau ar wariant cymwys fel y nodir yn y Nodyn Cyfarwyddyd perthnasol ar gyfer y Cynllun.
8. Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno yn y fformat cywir a chyda'r holl ddogfennau angenrheidiol. Fel arall, byddant yn cael eu gwrthod a'u dychwelyd i'r ymgeisydd.
9. Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Ni allwch newid yr amserlen y cytunwyd arni na gwerth eich hawliadau heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
10. Mae'n rhaid cyflwyno'r hawliad cyntaf cyn pen **chwe mis** i ddyddiad y llythyr cymeradwyo.

Os nad yw'r hawliad cyntaf yn cael ei wneud o fewn y cyfnod hwn, bydd y cynnig grant yn cael ei derfynu'n awtomatig.

11. Dylid cwblhau prosiectau o fewn yr amserlen y cytunir arni gyda Llywodraeth Cymru. Ni chewch wyro oddi wrth hyn heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
12. Mae'n rhaid ichi gadarnhau nad oes dim o'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y cais yn cymryd lle eitemau o dan hawliad yswiriant.
13. Mae'n rhaid ichi gadarnhau nad ydych chi wedi gwneud cais am unrhyw gyllid cyhoeddus arall (o ffynonellau'r UE neu'r DU).
14. Mae'n rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd a roddir i'r prosiect gyfeirio at gyfraniad yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru at ei gyllido.
15. Mae'n rhaid cadw cofnodion sy'n ymwneud â gweithgarwch y busnes a chyflawni'r prosiect, gan gynnwys yr holl anfonebau gwreiddiol a dogfennau eraill cysylltiedig fel tendrau cystadleuol neu ddyfynbrisiau am o leiaf saith mlynedd ar ôl y daw dyddiad y daw'r prosiect i ben fel y nodwyd yn y llythyr sy'n cymeradwyo'r grant.
16. Mae'n rhaid ichi ganiatáu i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiwn Archwilio a Llys Archwilwyr Ewrop arolygu'r

prosiect. Ar gais, mae'n rhaid ichi ddarparu gwybodaeth iddynt a/neu fynediad i ddogfennaeth wreiddiol sy'n ymwneud â'r prosiect.

17. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais ac unrhyw ddogfennaeth ategol yn destun gofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Dylech fod yn ymwybodol, os yw'ch cais yn llwyddiannus, bod gan Lywodraeth Cymru a'r CE yr hawl i gyhoeddi enw eich busnes neu gwmni, faint o grant a ddyfarnwyd ichi a chrynodeb o'ch prosiect.

18. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cais mynegi diddordeb a cheisiadau llawn yn destun yr [Hysbysiad Preifatrwydd](#)
Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn prosesu ac yn defnyddio eich data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus

68. Mae Cyfarwydddebau Caffael y Gymuned Ewropeaidd yn berthnasol i gontractau a gyllidir neu a gyllidir yn rhannol gan Gronfeydd yr UE. Mae'r rheolau caffael llawn yn berthnasol i bob corff cyhoeddus a menter fasnachol yn y sector preifat sy'n derbyn cymorth grant o 50% neu fwy o gyfanswm costau'r prosiect ac eithrio TAW.
69. Efallai na fydd mudiadau'r trydydd sector nad ydynt yn cael eu cyllido na'u goruchwyllo gan gyrff y sector cyhoeddus a mentrau masnachol yn y sector preifat sy'n cael cymorth grant sy'n llai na 50% o gyfanswm costau'r prosiect yn dod o dan Gyfarwydddebau Caffael y Gymuned Ewropeaidd, ond mae disgwyl iddynt ddefnyddio arferion teg ac agored yn yr un modd, gan gynnwys tendro cystadleuol, wrth brynu nwyddau neu wasanaethau fel rhan o weithgareddau prosiect sy'n cael cefnogaeth drwy Raglenni a gyllidir gan yr UE.
70. Ceir canllawiau am y gofynion sydd angen i bob ymgeisydd eu dilyn yn Nodiadau Cyfarwyddyd ar Dendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/docs/drah/publications/160704-competitive-tendering-and-public-procurement-technical-guidance-notes-cy.pdf>

TALU GRANT

Hawliadau

71. Gallwch gyflwyno hawliadau interim yn ystod cyfnod y prosiect. Bydd gwybodaeth ynghylch sut i hawlio yn cael ei gyhoeddi pan gaiff y dyfarniad ei gadarnhau ac wedyn pan gewch eich gwahodd i hawlio. Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y gwariant perthnasol wedi'i wneud a bod y gwaith wedi'i gwblhau

yn unol â'r cynllun y bydd hawliadau'n cael eu talu. Bydd taliadau'n cael eu gwneud drwy drosglwyddiad electronig i'ch cyfrif banc.

72. Dylid cyflwyno hawliadau terfynol ar gyfer talu grant cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r gwaith ffisegol ar y prosiect. Mae'n rhaid derbyn yr hawliadau terfynol erbyn 30 Mehefin 2023 fan bellaf er mwyn i Lywodraeth Cymru allu gwneud y taliad. Gall methu â chyflwyno hawliadau arwain at orfod ad-dalu'r grant sydd wedi'i dalu tan hynny.
73. Yn ystod oes y grant, pan fo hawliadau'n cael eu cyflwyno, efallai y byddant yn cael eu harchwilio i sicrhau bod gwariant yn gymwys ac yn unol â'r hynny a gymeradwywyd yn y cais gwreiddiol. Ar ôl cwblhau'r gwaith ffisegol, ymwelir â'r safle a bydd asesiad manwl o'r prosiect yn cael ei gynnal. Mae'r wybodaeth a fydd yn ofynnol yn ystod yr ymweliad yn cynnwys anfonebau gwreiddiol; rhifau cyfresol/peiriannau; tystysgrif cwblhau Rheoliadau Adeiladu (lle bo hynny'n briodol); system lechyd a Diogelwch, gan gynnwys dadansoddi risg; dogfennau Asesu Risg Tân yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005; cofnodion rheoli plâu ac unrhyw gofnodion rheoli statudol eraill y mae'n ofynnol i'r fenter eu cadw. Bydd rhyddhau'r grant yn amodol ar wneud cynnydd digonol.

Hawliadau anghywir a chosbau

74. Mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau bod pob hawliad a gyflwynir yn gywir yn rhifyddol; bod tystiolaeth o'r holl gostau gwirioneddol fel gwariant sydd wedi'i dalu (mae'r taliad wedi gadael y cyfrif banc); bod yr holl eitemau a chostau'n gymwys a bod yr hawliad ar amser.
75. Os yw'r hawliad yn anghywir bydd yr hawliad yn cael ei ostwng i'r swm sy'n gymwys, a bydd y grant a fydd yn cael ei dalu'n cael ei gyfrifo ar sail hynny. Fodd bynnag, os yw'r camgymeriad yn fwy na 10% o'r cyfanswm sy'n cael ei hawlio, yna bydd cosb ariannol fel y disgrifir isod.
76. Bydd swm y gwariant cymwys yn cael ei ostwng yn ôl swm y camgymeriad ac felly bydd cyfanswm y grant i'w dalu yn is na'r disgwyl. Bydd yn rhaid ichi dalu'r gwahaniaeth gan na ellir cynnwys y grant a gollwyd mewn hawliadau diweddarach.
77. Gellir cynyddu'r gosb, o dan rai amgylchiadau, ac efallai y bydd yn rhaid ad-dalu'r holl grant sydd wedi'i dalu tan hynny. Os yw hynny'n digwydd, ni fyddwch yn gallu cyflwyno cais o dan yr SMS yn ystod gweddill blwyddyn gyfredol Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig neu ar gyfer blwyddyn ganlynol y Gronfa.
78. Os oes gennych chi unrhyw amheuon ynglŷn â chymhwysedd unrhyw wariant, rhaid ichi wirio **cyn** ichi fynd i gostau.

Troseddau

79. Mae Rheoliad 13 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 (Rhif 3222 (Cy.327)) yn pennu troseddau a chosbau mewn perthynas ag elfennau penodol o gyllid datblygu gwledig. Mae'r Rheoliad hwnnw a'r troseddau hynny'n gymwys i'r SMS. Mae enghreifftiau o droseddau'n cynnwys darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yn fwriadol neu'n fyrbwyll mewn perthynas â chyllid datblygu gwledig; rhwystro arolygwr neu swyddog; a gwrthod darparu gwybodaeth ar gais.

MONITRO PROSIECTAU

80. Mae'n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd bod cynnydd eich prosiect yn cael ei fonitro a bod ei lwyddiant yn cael ei werthuso ar ôl ei gwblhau. Bydd gofyn ichi ddarparu diweddariadau rheolaidd ar ei gynnydd ac adroddiad terfynol ar ei berfformiad dri mis ar ôl ei gwblhau pan fydd y prosiect yn cael ei werthuso yn erbyn yr amcanion a'r targedau sydd yn y cais a gymeradwywyd. Pe bai'r prosiect yn methu â bodloni'r targedau hyn ac, ar sail y cynnydd a wnaed mewn gwirionedd, heb gymhwyso i gael cymorth grant o dan y cynllun, gall camau gael eu cymryd i adennill y grant sydd wedi'i dalu.

81. Bydd yn ofyniad ar gyfer dyfarnu'r grant bod y cyfarpar sy'n cael ei brynu gyda chymorth grant Rheoli Cynaliadwy ac unrhyw adeiladau y telir grant amdanynt, yn cael eu cadw yn eu lleoliad gwreiddiol, yn weithredol ac mewn cyflwr da, ac yn cael eu defnyddio at y dibenion a nodwyd yn y cais gwreiddiol, am bum mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect. Mae hyn er mwyn sicrhau hirhoedledd y prosiect a sicrhau cyfran barhaol o fanteision y prosiect i'r cynhyrchwyr cynradd.

82. Bydd angen cwblhau ffurflen fonitro bellach ddwy flynedd ac eto bum mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect. Bydd ymweliadau â'r safle'n cael eu cynnal ar ganran o'r prosiectau a gymeradwyir o fewn pum mlynedd i ddyddiad cwblhau'r prosiect er mwyn sicrhau bod y cyfarpar a brynwyd gyda'r grant yn parhau i fod ym meddiant yr ymgeisydd a'i fod yn defnyddio'r adeilad a/neu'r cyfarpar a brynwyd gyda'r grant a bod y busnes yn perfformio yn ôl y disgwyl.

83. Mae'n rhaid ichi ganiatáu i swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd, neu eu cynrychiolwyr, arolygu'r prosiect ar unrhyw adeg resymol o fewn y cyfnod o bum mlynedd.

DIWEDD Y CYNLLUN RHEOLI CYNALIADWY

84. Mae'n rhaid cyflwyno pob hawliad i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Mehefin 2023 fan bellaf. Mae'n rhaid cwblhau holl weithgarwch y prosiect mewn da bryd i'r cyfrifon a'r cofnodion gael eu harchwilio ac i hawliadau gael eu paratoi a'u cyflwyno erbyn y dyddiad hwnnw.

GWEITHDREFN APELIO

85. Os gwrthodir cais, bydd y rhesymau am ei wrthod yn cael eu hegluro. Byddwn yn fodlon trafod unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen i wneud y prosiect yn dderbyniol.

86. Os yw cais yn dal i gael ei wrthod bydd gweithdrefn apelio yn cael ei sefydlu ar ffurf cyflwyniad llafar neu ysgrifenedig i bobl a benodir gan Weinidogion Cymru ac sy'n annibynnol arnynt.

GWEITHDREFN GWYNO

87. Os ydych yn teimlo nad ydym wedi dilyn y drefn gywir wrth ddelio â'ch cais efallai yr hoffech wneud cwyn yn unol â Pholisi Cwynion Llywodraeth Cymru sydd ar gael drwy'r post neu ar y wefan ar:

http://gov.wales/contact_us/makeacomplaint/complaintspolicy/?lang=cy

ATODIAD A

ENGHREIFFTIAU O WEITHGAREDDAU PROSIECTAU POSIBL


Mae enghreifftiau o'r mathau o brosiectau a gweithgareddau a allai gael eu cefnogi ac sy'n flaenoriaeth o dan yr SMS yn cynnwys:

- Camau cydweithredol sy'n gwella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ecosystemau a nodwyd, a hynny drwy reoli tir a defnyddio tir yn briodol. Mae hyn yn cynnwys camau i reoli tir a gwaith cyfalaf megis :
 - plannu gwrychoedd a choed yn strategol er mwyn rheoli perygl llifogydd yn well
 - lleoli a rheoli coetiroedd a choed yn well er mwyn gwella ansawdd yr aer mewn lleoliadau gwledig a threfol
 - cydlynu arferion da i reoli tir drwy drin y tir yn dda ac arferion pori cynaliadwy, ynghyd â phlannu gwrychoedd a choed sy'n arwain at wella ansawdd a maint dŵr drwy reoli ffynhonnell neu symudiad gwaddodion a llygryddion posibl (gan gynnwys maetholion o wrteithiau a thail, gwaddod o ddŵr ffo, bacteria o dail a da byw, a phlaleiddiaid o ganlyniad i ddefnyddio a gwaredu triniaethau) a gwella draeniad a lleihau dŵr ffo ar yr arwyneb
 - ail-wlychu ac adfer priddoedd mawn er mwyn lliniaru neu addasu i'r newid yn yr hinsawdd, e.e. drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o ganlyniad i amaethyddiaeth, lleihau dŵr ffo, a helpu i buro dŵr a gwella bioamrywiaeth
 - plannu coed unigol neu grwpiau bychain o goed ar gyfer parcdir, gwrychoedd a pherllannau er mwyn gwella'r cysylltedd rhwng cynefinoedd er mwyn bod o fudd uniongyrchol i beillwyr gwyllt a chynyddu cadernid ein bioamrywiaeth
 - gwella a/neu greu cynefinoedd a gwella bioamrywiaeth a chysylltedd ein safleoedd dynodedig, gan gynnwys symud rhywogaethau goresgynnol a rheoli prysgwydd a rhedyn
 - adfer a diogelu twyni tywod a chreu cynefin rhynglanwol er mwyn darparu amddiffyniad naturiol rhag llifogydd a darparu cynnydd yn y bioamrywiaeth
 - hwyluso mesurau pori cynaliadwy er mwyn cynorthwyo i droi tir yn ôl yn rhostir neu laswelltir sy'n gyforiog o rywogaethau, a hynny er lles bywyd gwyllt a bioamrywiaeth
 - ffensys a mesurau eraill i wella bioddiogelwch ac iechyd a lles anifeiliaid
- Dulliau cydweithredol o gynllunio rheoli coedwigoedd fel rhan o gynllun ehangach o weithgareddau ar raddfa'r tirwedd.
- Camau cydweithredol i gynyddu effeithlonrwydd adnoddau a chynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy yn lleol.

Cynllun Rheoli Cynaliadwy – Nodiadau Cyfarwyddyd
Mesur Cydweithredu 16(5)

- Camau cydweithredol o natur gymdeithasol yn bennaf, sy'n defnyddio ffermio i sicrhau amrywiol fanteision i gymdeithas drwy weithredu ar y cyd, a thrwy hynny hefyd gynnig cyfleoedd incwm i aelwydydd sy'n amaethu.
- Camau a gwaith cydweithredol i wella nodweddion tirwedd er mwyn ychwanegu naws am le, ee gwrychoedd, coed, cloddiau pridd a nodweddion hanesyddol neu gymeriad tirwedd.
- Camau cydweithredol i wella ansawdd yr amgylchedd lleol.
- Camau cydweithredol i ganfod, mapio a defnyddio darnau o dir ar gyfer storio a lliniaru llifogydd.
- Camau cydweithredol i dreialu cynnyrch newydd a chanfod marchnadoedd newydd – defnyddio Taliadau ar gyfer Gwasanaethau Ecosystemau, gan gynnwys:
 - dull ar sail dalgylch o leihau llifogydd
 - mecanweithiau ynni biomas gan ddefnyddio'r hyn sy'n weddill ar ôl rheoli cynefinoedd
 - prosiectau gwrthbwysu carbon ar gyfer coetiroedd a thir mawn
 - cynlluniau gwrthbwysu maetholion ar gyfer gwella ansawdd dŵr
 - lleihau neu aildefnyddio deunyddiau gwastraff mewn ffyrdd sy'n cefnogi rheoli tir yn gynaliadwy.
- Gwaith cydweithredol i wella amrywiaeth a faint sydd o gyfleusterau hamdden awyr agored
- Datblygu perthnasoedd fel y bo modd gwneud penderfyniadau ar y cyd a chydlynu gweithgareddau i gryfhau cydweithrediadau ledled ardal/tirwedd.
- Gweithgareddau sy'n gymorth i fynd i'r afael â throseddau tirwedd – gan gynnwys llosgi bwriadol a thipio anghyfreithlon.
- Camau i sicrhau bod nodweddion amgylcheddol hanesyddol yn goroesi (e.e. dyfrffyrdd, dyfrddolydd), nodweddion archaeolegol ac adeiladau hanesyddol (costau cynllunio).
- Datblygu deunyddiau dehongli a gwybodaeth i ymwelwyr (e.e. cynefinoedd a rhywogaethau, gwasanaethau ecosystemau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol).
- Camau a gwaith i wella mynediad a ganiateir i'r cyhoedd, gan gynnwys cynnal a chyflwyno mynediad ychwanegol a ganiateir (nid y rhwydwaith hawliau tramwy statudol sy'n bodoli eisoes).
- Darparu hyfforddiant a lledaenu gwybodaeth i wneud pobl eraill yn ymwybodol o ddyfeisiadau newydd neu dechnegau arferion gorau.

Pan fydd cydweithrediad yn ystyried yr heriau a'r cyfleoedd lleol yn yr ardal dan sylw, efallai y byddai'n ddefnyddiol ystyried y gwasanaethau ecosystemau a fyddai'n elwa o fynd i'r afael â'r heriau neu'r cyfleoedd hyn. Mae'r diagram canlynol yn dangos rhestr, nad yw'n gynhwysfawr, o berthnasoedd gwasanaethau ecosystemau, gyda'r manteision posibl.



Dogfen na chafodd ei chyhoeddi yn Gymraeg

ATODIAD B

RHEOLI ADNODDAU NATURIOL YN GYNALIADWY

Mae Bil yr Amgylchedd (Cymru), 'y Bil', yn cyflwyno cynigion ar gyfer dull deddfwriaethol newydd o ymdrin â'r modd rydym yn rheoli ein cyfoeth naturiol mewn ffordd fwy cynaliadwy, cydweithredol a chydgyssylltiedig.

Beth rydym yn ceisio ei wneud?

Amcan rheolaeth gynaliadwy yw sicrhau bod **y ffordd rydym yn rheoli a chyfradd y defnydd o'n hadnoddau naturiol**, a'r **manteision lluosog** y maent yn eu darparu inni, yn cael eu gwneud mewn ffordd nad yw'n arwain at ddirywiad hirdymor yn yr adnoddau hyn a'r ecosystemau sy'n eu cefnogi.

Y bwriad yw lleihau effeithiau niweidiol ar ecosystemau er mwyn osgoi effeithiau annymunol ar ein heconomi, ein cymdeithas, ein diwylliant a'n hamgylchedd. Mae'r cysyniad o ecosystem gadarn yn ganolog i'r amcan hwn. Mae ecosystem gadarn yn un iach, ac mae'n gweithio mewn ffordd sy'n gallu ymdopi â'r pwysau a'r galwadau sydd arni. Mae'n gallu sicrhau manteision dros y tymor hir er mwyn diwallu anghenion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yn y presennol ac yn y dyfodol. Wrth geisio sicrhau manteision lluosog drwy ein rheolaeth a'n defnydd o adnoddau naturiol, rydym yn chwilio am gyfleoedd i wella lles, ond hefyd am ffyrdd newydd o ddefnyddio a ffyrdd i helpu i gynnal ein hecosystemau yn y tymor hir.

Beth rydym yn ei reoli?

Mae rheolaeth gynaliadwy yn ymwneud â rheoli **adnoddau naturiol**, sef pob organeb fyw (ac eithrio pobl), a deunyddiau a rhannau anfyw o'r amgylchedd naturiol. Mae'n cynnwys pob **rhan** o'r amgylchedd naturiol, er enghraifft, adnoddau biolegol a daearegol, cyfryngau amgylcheddol (aer, dŵr a phridd) a hefyd adnoddau llif (megis y llanw, y gwynt a'r haul). O'r cynhwysion crai hyn, gellir cael holl agweddau, gwasanaethau a manteision yr amgylchedd.

Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Fersiwn: 6

Dyddiad Cyhoeddi: Awst 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Tud 24 o 27

Mae'r Bil hefyd yn cyflwyno nifer o egwyddorion sy'n tanategu'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy:

Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy:

- a) **Rheoli mewn modd ymaddasol** drwy gynllunio, monitro, adolygu a lle bo'n briodol, drwy newid gweithredoedd.
- b) Ystyried y **raddfa ofodol** ar gyfer gweithredu.
- c) Hyrwyddo a chymryd rhan mewn **cydweithredu a chydweithio**.
- d) Gwneud trefniadau priodol ar gyfer **cael y cyhoedd i gyfranogi** wrth wneud penderfyniadau.
- e) Ystyried yr holl **dystiolaeth** berthnasol a chasglu tystiolaeth yn ymwneud â **materion ansicr**.
- f) Ystyried **manteision** a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau.
- g) Gweithredu i **atal** niwed difrifol neu di-droi'n-ôl i ecosystemau.
- h) Ystyried **canlyniadau tymor byr, tymor canolig a thymor hir** gweithredoedd.
- i) Ystyried **cadernid ecosystemau**, yn arbennig:
 - Yr amrywiaeth o fewn ecosystemau a rhyngddynt;
 - Y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac o'u mewn;
 - Maint ecosystemau;
 - Cyflwr ecosystemau;
 - Addasrwydd ecosystemau.

Datganiad Polisi ar Adnoddau Naturiol

Y Prif Heriau

Mae Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Adnoddau Naturiol yn dangos y dystiolaeth amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd presennol yr ydym wedi canfod ynddynt rai heriau pwysig wrth reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ar lefel genedlaethol. Yn arbennig, mae'n dangos y risgiau i'r manteision a ddarperir gan ein hadnoddau naturiol. Dyma'r heriau pwysig sy'n dod i'r amlwg wrth reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy:

- Diogelu ein storffeydd carbon i liniaru yn erbyn newid yn yr hinsawdd ac amddiffyn rhag rhagor o allyriadau carbon
- Cynnal ein gallu i gynhyrchu cyflenwadau bwyd, pren a ffeibrau
- Lleihau perygl llifogydd
- Gwella tegwch cymdeithasol ac iechyd, a gellir gwneud hynny'n rhannol drwy wella mynediad at le glas a gwyrdd o ansawdd da
- Gwella ansawdd a sicrhau bod dŵr ar gael
- Gwella ansawdd a chysylltedd ein cynefinoedd
- Cadw hynodrwydd ein lleoedd a'n tirweddau hanesyddol.

Meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu sy'n dod i'r amlwg

- **Mesurau i gael gwell mesurau pridd ar dir isel, dŵr, plannu a chynefinoedd** – drwy reoli pridd a slyri a thail ffermydd yn ofalus, ynghyd ag amrywiaeth o fesurau rheoli plannu a chynefinoedd, gellir mynd i'r afael â'r amryfal bwysau ar ein hecosystemau a thrwy wneud hynny, gellir darparu amrywiaeth eang o fanteision i reolwyr tir ac i'r gymdeithas – ansawdd dŵr, rheoli perygl llifogydd a storffeydd carbon.
- **Mwy o seilwaith gwyrdd trefol o ansawdd da a draenio cynaliadwy** – Gall gwasgariad da o seilwaith gwyrdd ledled cymunedau ddarparu manteision iechyd a lles i gymunedau yn ogystal â bioamrywiaeth.
- **Rheoli llifogydd cynefinoedd arfordirol yn well** - Mae rheoli cynefinoedd arfordirol yn well yn y cyd-destun hwn yn cynnwys adfer a diogelu twyni tywod, ynghyd â chreu cynefin rhynglanwol newydd mewn ardaloedd cilio a reolir er mwyn cael rhywbeth yn lle'r hyn a gollir drwy gywasgu arfordirol.
- **Gwell bioamrywiaeth a faint sydd o gyfleusterau hamdden awyr agored** - Mae'r awyr agored yn rhoi cyfleoedd i amrywiaeth eang o weithgareddau sydd, o'u gwneud yn gyfrifol, yn cyd-fyw â'i gilydd a chyda'r defnydd o dir megis ffermio a choedwigaeth.

- **Rheoli a defnyddio safleoedd dynodedig yn well** - Mae safleoedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer cadwraeth natur yn chwarae rhan bwysig mewn cysylltedd ledled y tirwedd, ac mewn llawer o achosion, maent yn gronfeydd i amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau.
- **Coetiroedd a choed wedi'u lleoli'n well** - Mae cynnydd mewn cyfoeth rhywogaethau ac amrywiaeth strwythurol ein coed a'n coetir, ynghyd â choetir tameidiog cysylltiol, y allweddol er mwyn cynyddu ei gadernid a gall helpu i gefnogi bioamrywiaeth, ansawdd dŵr a rheoli faint o ddŵr sydd a gwella rhwydweithiau bioamrywiaeth.
- **Rheoli fwy ar fawn ar ucheldir** - Gweithgareddau megis ail-wlychu ac adfer priddoedd mawn, rheoleiddio carbon ac arafu dŵr ffo i leihau llifogydd i lawr yr afon. Mae pridd mawn iach hefyd yn gymorth i buro ein dŵr.